Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Pontrhydfendigaid
**Neuadd Pantyfedwen**
**Pontrhydfendigaid**
**Ystrad Meurig**
**Ceredigion**
**SY25 6BB**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2015**

**gan**

**Dorothy Morris**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/12/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Pontrhydfendigaid yn cyfarfod mewn ystafell yng Nghanolfan Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid, ger Aberystwyth.  Mae’r lleoliad ar agor am bedwar bore'r wythnos yn ystod tymor yr ysgol.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i gymryd hyd at 12 o blant fesul sesiwn.  Ar hyn o bryd, mae 20 o blant dwy a thair oed ar y gofrestr, gyda 12 ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi’i ariannu.  Saesneg yw prif iaith y cartref i’r mwyafrif ohonynt.  Nid yw’r lleoliad wedi adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y garfan bresennol.

Mae tri aelod o staff, yn cynnwys dau arweinydd llawn amser ac un ymarferwraig ar gytundeb dros dro.  Mae’r rhan fwyaf o’r staff yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach.  Mae un arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 2007 a’r llall ers 2012.

Arolygwyd y feithrinfa ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Medi 2013 a chan Estyn yn Hydref 2010.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu ystod briodol o fedrau llythrennedd a rhifedd
- Mae gan yr holl blant agweddau cadarnhaol at ddysgu
- Mae'r addysgu da yn sicrhau mwynhad ac ymrwymiad gweithredol y plant yn eu dysgu
- Mae'r berthynas dda rhwng y plant a'r ymarferwyr yn hybu hyder y plant fel dysgwyr annibynnol
- Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol
- Mae'r ethos cynhwysol yn creu awyrgylch gynnes a chynhaliol i'r plant

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae'r arweinwyr yn darparu cyfeiriad cadarn i waith y lleoliad
- Mae'r holl ymarferwyr yn ymrwymedig i ddatblygiad a lles y plant
- Mae gweithdrefnau cynllunio manwl yn arwain at waith tîm effeithiol
- Mae'r pwyllgor rheoli a'r swyddogion yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn gydwybodol
- Mae'r arweinwyr yn arfarnu'r ddarpariaeth yn barhaus ac yn chwilio am ffyrdd i wella
- Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys meysydd addas ar gyfer gwelliant
- Mae gwelliannau yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus mewn agweddau megis cynllunio ac asesu
- Mae partneriaethau effeithiol yn cyfrannu'n adeiladol at waith y lleoliad

## Argymhellion

A1 Ymestyn medrau llafar Cymraeg y plant

A2 Cryfhau’r ddarpariaeth i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn fwy cyson

A3 Ehangu’r defnydd o ddeilliannau asesu cynnydd plant i gynllunio’r camau nesaf yn eu dysgu

A4 Blaenoriaethu ymhellach y prif feysydd sydd angen sylw yn y cynllun datblygu

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda ac maent yn ymateb yn gywir i gyfarchion a chyfarwyddiadau. Maent yn dangos diddordeb a brwdfrydedd wrth wrando ar storïau. Mae ychydig o blant yn sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg. Maent yn ymateb mewn brawddegau llawn gan ddefnyddio geirfa addas. Mae'r mwyafrif yn dangos dealltwriaeth dda o gwestiynau a sylwadau'r oedolion ond ymatebion byr iawn a geir ar lafar. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwybod ystod o ganeuon a rhigymau ac yn eu canu'n gywir ar y cyfan. Mae'r mwyafrif yn defnyddio offer marcio yn bwrpasol i dynnu lluniau, cofnodi eu syniadau, a throsysgrifennu yn daclus. Maent yn dechrau deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu, er enghraifft drwy ysgrifennu cyfarchion ar garden bost. Mae ychydig o blant yn ysgrifennu eu henwau yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac yn eu trin yn gywir. Mae bron pob un yn adnabod eu henwau mewn print.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau rhif sylfaenol mewn gweithgareddau bob dydd. Maent yn cyfrif i ddeg yn gywir ac mae'r rhan fwyaf yn deall gwerth rhif i o leiaf pump. Mae'r mwyafrif ohonynt yn didoli gwrthrychau yn ôl siâp, maint neu liw yn gywir. Mae ganddynt wybodaeth briodol am nodweddion siapiau dau ddimensiwn gan gyfeirio'n gywir at siapiau a welwyd ar eu taith i'r pentref. Mae'r mwyafrif yn deall ystyr termau mathemategol, megis mawr, bach, trwm, llawn mewn gweithgareddau ymarferol. Maent yn dechrau deall pwrpas arian drwy brofiadau megis talu am stampiau ar ymweliad â'r swyddfa bost a gwerthu llysiau o'r ardd i'r rhieni.

Mae medrau TGCh sylfaenol y mwyafrif o blant yn datblygu'n briodol, er yn anwastad. Maent yn gwneud defnydd addas o'u medrau ymchwiliol a datrys problemau mewn gweithgareddau megis garddio, coginio, arbrofi gyda chynwysyddion gwahanol yn y tywod, a darganfod a chyfateb rhifolion yn yr ardal allanol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio eu medrau creadigol yn effeithiol i greu collage, peintio, arlunio ac efelychu gwaith artist adnabyddus. Mae'r mwyafrif yn defnyddio offer torri, peintio a gludo gyda rheolaeth dda.

**Lles: Da**

Mae pob un o'r plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad ac yn ymgyfarwyddo'n gyflym â gweithdrefnau dyddiol. Maent yn cyd-chwarae'n hapus ac yn barod i rannu a chymryd eu tro. Maent yn ymddwyn yn dda.

Mae pob plentyn yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae'r mwyafrif yn hapus i wneud dewisiadau ac yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau gyda'u gweithgareddau am gyfnodau priodol.

Mae gan y mwyafrif o blant ymwybyddiaeth briodol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Deallant bwysigrwydd golchi dwylo yn rheolaidd ac yn arbennig cyn bwyta byr brydau.

Mae medrau personol a chymdeithasol y plant yn datblygu'n dda. Maent yn ymgymryd â chyfrifoldebau, megis helpwr y dydd a thacluso ar ôl gweithgareddau, yn hyderus. Mae eu hymwybyddiaeth gymdeithasol yn datblygu ymhellach trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau, megis mabolgampau, cyngherddau a charnifal, a drefnwyd mewn cydweithrediad â'r ysgol a'r gymuned leol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o brofiadau dysgu sy'n ennill diddordeb ac ymglymiad ymarferol y plant yn eu dysgu. Mae gweithgareddau yn cael eu trefnu o gwmpas cyfres o themâu sy'n gweddu i ystod oed a lefel datblygiad y plant. Mae cyfleoedd addas i'r plant gyfrannu at y cynllunio drwy awgrymau rhai gweithgareddau. Mae'r cynllunio wythnosol yn manylu'n briodol ar weithgareddau a chyfleoedd dysgu, gan nodi'r sgiliau i'w datblygu yn glir. Mae defnydd effeithiol o drefn cod lliw i nodi gweithgareddau i'w cyflwyno, cofnodi'r rhai sydd wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus ac i adnabod gweithgareddau sydd angen sylw pellach. Mae defnydd effeithiol o'r sylwadau hyn ar gyfer cynllunio pellach. Er hyn, nid yw'r cynllunio i ddatblygu medrau TGCh y plant yn gyson yn ddigon cadarn.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae cyfleoedd pwrpasol i'r plant wrando ar storïau, ymuno mewn caneuon a rhigymau, edrych ar lyfrau, a defnyddio eu medrau marcio. Mae cyfleoedd cynhyrchiol i'r plant gyfrif a thrafod rhifau yn ystod gweithgareddau grŵp, amser cylch ac yn eu chwarae. Yn ychwanegol, mae gweithgareddau dan arweiniad ymarferwyr yn cael eu cynllunio'n fanwl i ddarparu ar gyfer anghenion dysgu grwpiau penodol o blant. Mae'r gweithgareddau i ddatblygu dealltwriaeth y plant o rif yn enghraifft.

Mae cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddatblygu eu medrau ymchwiliol, creadigol a chorfforol. Mae'r profiadau cynhyrchiol yn yr ardd fach lle mae'r plant yn tyfu ystod o lysiau yn enghraifft. Mae'r plant yn eu tro yn casglu'r llysiau ac yn eu paratoi ar gyfer eu gwerthu i'r rhieni. Maent hefyd yn cyfrannu at greu hysbyseb i ddweud wrth y rhieni bod llysiau ar werth.

Mae'r plant yn cael eu cyflwyno'n effeithiol i draddodiadau a dathliadau Cymru drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae defnydd pwrpasol o ymweliadau ac o gyfraniad rhai ymwelwyr i gefnogi'r dysgu. Er enghraifft, mae'r ymweliadau mewn bws â thref gyfagos a choedwig leol yn llwyddo i hybu ymwybyddiaeth y plant o'u hardal leol. Yn ogystal, mae ymweliad postfeistres a chogydd i sgwrsio gyda'r plant yn datblygu eu gwybodaeth o waith rhai pobl yn y gymuned.

## Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gadarn am ddatblygiad plant a gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y defnydd cynhyrchiol o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau addas sy’n hyrwyddo’r dysgu yn effeithiol. Mae’r ymarferwyr yn cynnal cydbwysedd da rhwng gweithgareddau y mae oedolion yn eu harwain a’r rhai y mae plant yn eu dewis.

Mae’r holl ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu hapus a chadarnhaol i’r plant. O ganlyniad, mae’r plant yn hyderus i ymuno yn yr ystod o weithgareddau sydd ar gael. Mae’r ymarferwyr yn rhyngweithio'n effeithiol gyda’r plant. Maent yn siarad gyda’r plant yn gyson, yn cyflwyno geirfa newydd ac yn eu hannog i arbrofi ac i ddefnyddio eu medrau yn eu chwarae.

Mae’r rhan fwyaf o’r gweithgareddau yn cael eu trefnu’n effeithiol ac yn cynnig her briodol i’r plant. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o lyfrau stori, gwrthrychau a phypedau i ddatblygu geirfa sylfaenol Cymraeg y dysgwyr ifanc. Mae tasgau ar gyfer plant sy’n siarad Cymraeg yn rhugl yn cynnwys tynnu llun cymeriad dychmygol, disgrifio’r cymeriad i’r grŵp a chyfrannu brawddegau syml i’w cynnwys ar eu gwaith. Mae’r gweithgareddau hyn yn llwyddo i hybu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu cynnar y plant mewn modd ystyrlon.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol o’u datblygiad cyffredinol. Maent yn cynnal asesiadau wrth arsylwi’r plant ac yn cofnodi sylwadau perthnasol ar draws y meysydd dysgu yn glir. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i arwain y cynllunio cyffredinol ar gyfer yr wythnos ddilynol. Mae’r defnydd o asesiadau unigol ar gynnydd plant wrth gynllunio’r camau nesaf yn eu dysgu yn elfen sy’n datblygu’n briodol.

Mae trefniadau addas i hysbysu rhieni am ddatblygiad eu plant. Maent yn cynnwys trafodaethau anffurfiol, nosweithiau rhieni ac adroddiadau ysgrifenedig priodol. Mae’r casgliad o samplau o waith y plant sydd ar gael i’r rhieni yn gofnod diddorol o’u datblygiad.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae’r lleoliad yn gymuned hapus a gofalgar. Mae arferion dyddiol sefydledig yn hyrwyddo lles plant yn effeithiol. Mae defnydd adeiladol o raglenni addysg iechyd cyn-ysgol yn rhoi sylw da i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd byw yn iach. Maent yn cynnwys darparu byrbrydau iachus yn cynnwys ffrwythau. Mae bod yn rhan o Gynllun Gwên yn hybu arferion da o ran gofal dannedd.

Mae profiadau dysgu perthnasol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn briodol. Mae gwerthoedd, megis rhannu ac ystyried eraill, yn cael eu hyrwyddo’n effeithiol drwy’r gweithgareddau dyddiol. O ganlyniad, mae’r plant yn ymddwyn yn dda. Mae sylw pellach i ddatblygu ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd gofalu am eraill trwy gasglu arian at achosion da. Mae rhai cyfleoedd addas i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau megis dathlu’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae’r cyfleoedd i dyfu planhigion, ymweld â choedwig leol ac ymwneud â gweithgareddau ailgylchu yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd yn effeithiol.

Mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, pan mae angen. Maent yn cynnwys llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol megis gwasanaethau iechyd.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i’r cwricwlwm ac i’r holl weithgareddau. Mae’r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn ymateb yn briodol.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr gyda chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Ar y cyfan, mae digon o adnoddau i gefnogi'r dysgu ar draws y meysydd dysgu. Maent o fewn cyrraedd y plant ac yn hyrwyddo dysgu annibynnol yn effeithiol.

Mae’r adeilad yn cynnig cyfleusterau o ansawdd digonol. Er bod lle yn brin, mae’r ardaloedd gweithgareddau sydd wedi’u trefnu o amgylch yr ystafell yn cynnwys offer priodol. Mae arddangosfeydd o waith y plant yn cyfrannu at greu amgylchedd deniadol. Mae’r ardal allanol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i’r plant ymarfer eu medrau corfforol, creadigol a datrys problemau. Mae’r ardd newydd yn adnodd gwerthfawr ar gyfer gweithgareddau ymchwilio. Mae’r adeilad a’r safle yn lan a diogel.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r arweinwyr yn darparu cyfeiriad cadarn i waith y lleoliad. Mae hyn yn sicrhau amgylchedd trefnus a phwrpasol i’r plant. Mae’r holl ymarferwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gweithio’n effeithiol fel tîm. Maent yn rhannu gwerthoedd cytûn ac yn ymrwymedig i ddatblygiad a lles plant. Mae’r sesiynau cynllunio wythnosol yn sicrhau bod amcanion a threfniadaeth gweithgareddau yn glir. O ganlyniad, mae’r sesiynau dyddiol yn rhedeg yn llyfn. Mae polisiau angenrheidiol yn cael eu gweithredu’n briodol.

Mae’r pwyllgor rheoli yn cynnig cymorth effeithiol i’r lleoliad. Mae’r cadeirydd a’r swyddogion yn ymwelwyr rheolaidd ac wedi sefydlu perthynas waith gynhyrchiol gyda’r arweinwyr. Mae hyn yn cyfrannu’n adeiladol at y broses o adnabod anghenion pellach a chynllunio gwelliannau. Er enghraifft, mae’r cynllunio manwl a’r

cyfathrebu llwyddiannus gydag asiantaethau priodol wedi sicrhau estyniad gwerthfawr i'r ardal chwarae allanol, a defnydd o randir cyfagos fel gardd fechan i'r plant. Mae gweithdrefnau addas mewn lle ar gyfer gwerthuso gwaith ac adnabod datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg y plant a hybu arferion byw'n iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth sicr o gryfderau'r lleoliad ac o'r prif feysydd i'w gwella. Maent yn arfarnu'r ddarpariaeth yn barhaus ac yn chwilio am ffyrdd i wella. Maent yn arsylwi ar ymateb y plant yn fanwl, yn dadansoddi'r cynllunio ac yn cyd-drafod yn gyson. Mae'r cyfarfodydd wythnosol i drafod agweddau ar y ddarpariaeth ac i gynllunio ymlaen yn sesiynau defnyddiol. Yn ddiweddar, mae arfarniad o'r drefn gynllunio, dulliau asesu a threfniadaeth gweithgareddau wedi sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnig darlun priodol o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun datblygu sy'n deillio o hyn yn adnabod nifer o feysydd addas ar gyfer gwelliant. Mae'n cynnwys targedau clir, yn gosod amserlen ac yn amlinellu cyfrifoldebau a'r adnoddau angenrheidiol. Er hyn, nid yw'r meysydd i dderbyn sylw wedi'u blaenoriaethu'n ddigon manwl bob amser i gynorthwyo'r ymarferwyr gyda'r dasg o weithredu'r cynlluniau gwaith.

Mae cyfleoedd rheolaidd i'r plant fynegi barn yn syml am y gweithgareddau maent yn eu hoffi neu ddim yn hoffi. Mae canlyniadau'r trafodaethau i'w gweld wrth gynllunio gweithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth deg i farn rhieni drwy drafodaethau dyddiol, nosweithiau agored a thrwy ddadansoddi'r holiaduron blynyddol, sy'n gefnogol.

Mae cadeirydd newydd y pwyllgor rheoli yn ymweld â'r lleoliad i arsylwi ar y ddarpariaeth ac i drafod gyda'r arweinwyr. Mae hyn yn sicrhau bod gan y pwyllgor wybodaeth briodol am weithrediad y cynllun datblygu a'r meysydd dan sylw. Mae agweddau ar y ddarpariaeth yn cael eu monitro'n adeiladol gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin. Maent yn trafod a rhannu eu sylwadau gyda'r arweinwyr a'r pwyllgor rheoli sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gynllunio pellach.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae perthynas gadarn wedi'i sefydlu gyda'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn ystod yr arolygiad. Darperir gwybodaeth berthnasol iddynt trwy lyfrynnau, posteri, negeseuon technoleg gyfredol, a'r hysbysfwrdd yn y cyntedd. Mae ymarferwyr yn hawdd mynd atynt ac ar gael yn rheolaidd i drafod ar ddechrau a diwedd pob sesiwn, ac yn ystod cyfarfodydd rhieni.

Mae’r berthynas waith gynhyrchiol gyda’r pwyllgor rheoli yn gosod sylfaen briodol ar gyfer datblygiad pellach y lleoliad.  Mae’r cydweithio pwrpasol gydag athrawes gyswllt a swyddog Mudiad Meithrin yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad drwy’r cyngor ymarferol a ddarperir.

Mae partneriaeth gadarnhaol gyda’r ysgol gynradd.  Mae’r plant a’r ymarferwyr yn elwa o’r cyfleoedd i ymweld â’r ysgol ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau megis y mabolgampau.  Mae’r bartneriaeth gyda’r ysgol a chyda Cylch Ti a Fi y pentref yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i’r plant i gam nesaf eu haddysg.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau buddiol gyda’r gymuned.  Er enghraifft, mae defnydd llwyddiannus o’r cysylltiadau gydag asiantaethau, siopau, gwestai a mudiadau lleol i gefnogi'r gweithgareddau i godi arian i’r lleoliad ac ar gyfer elusennau.  Mae’r lleoliad yn elwa o’r cyswllt adeiladol gyda phwyllgor y neuadd a chyngor y gymuned.  Mae’r cyswllt gyda chymdeithasau, megis grŵp cadwraeth Coed y Bont, yn cyfrannu’n gynhyrchiol at ehangu profiadau dysgu’r plant.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae’r lleoliad wedi’i staffio’n briodol ac mae defnydd adeiladol o brofiad a medrau’r ymarferwyr.  Mae adnoddau yn cael eu defnyddio’n gynhyrchiol i gefnogi’r dysgu.

Mae’r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas ar ofynion y Cyfnod Sylfaen ac ar agweddau ar addysg a gofal plant.  Mae effaith gadarnhaol yr hyfforddiant i’w weld yn ansawdd y profiadau megis gweithgareddau i ddatblygu medrau llythrennedd cynnar y plant.  Mae’r arweinwyr wedi ymweld â lleoliadau eraill ac wedi derbyn rhai ymwelwyr i rannu profiadau ac arsylwi arfer dda.

Mae gan yr arweinwyr a’r trysorydd ddealltwriaeth sicr o’r gyllideb ac mae’r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn briodol yn ôl anghenion y lleoliad.  Mae defnydd llwyddiannus o weithgareddau codi arian ac o weithdrefnau sicrhau grantiau i gynorthwyo datblygiad pellach y lleoliad.

O ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth, yr addysgu a’r gofal a chymorth i’r plant, mae’r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |